Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.




**Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa:**

# Menywod a Merched yn y Ddalfa

**5 Rhagfyr 2024**

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**
**Awdur: Tom Walters**

# Cynnwys

**Trosolwg, cefndir, pwrpas a methodoleg** ........ 2

**Crynodeb o Ganfyddiadau** ........ 5

**Arsylwadau'r Panel** ........ 8

**Canfyddiadau'r Adolygiad o Gofnodion Dalfeydd** ........ 12

# Trosolwg, cefndir, pwrpas a methodoleg

Gellir dod o hyd i wreiddiau, pwrpas a sail resymegol Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa ar ein tudalen we, a’r cylch gorchwyl penodol drwy'r ddolen hon: Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Ym mis Awst 2023, comisiynodd Maer Manceinion Fwyaf y Fonesig Vera Baird i gynnal ymchwiliad annibynnol i driniaeth menywod a merched sydd wedi’u harestio a’u cymryd i ddalfa’r heddlu ym Manceinion Fwyaf. Daeth hyn yn dilyn ymchwiliad gan Sky News ym mis Gorffennaf 2023, yn adroddodd ddigwyddiadau trallodus yn ymwneud ag achosion tair dynes a gafodd eu harestio a’u cadw gan Heddlu Manceinion Fwyaf. Cafodd y gwirfoddolwyr wybod am Adroddiad Ymchwiliad y Fonesig Vera Baird a ryddhawyd ar 18 Gorffennaf 2024.

Yn yr adroddiad canolbwyntiwyd yn benodol ar y defnydd priodol, neu fel arall, o noeth-chwiliadau a chwiliadau o natur bersonol, gan gynnwys tynnu a newid dillad. Roedd 14 o astudiaethau achos wedi’u cynnwys yn yr adroddiad yn manylu ar brofiadau 11 o fenywod a merched a tri dyn gyda Heddlu Manceinion Fwyaf, o’r cyfnod cyn arestio, yn ystod arestio, cadw ac ar ôl cael eu cadw yn y ddalfa.

Mae’r adroddiad yn amlygu nifer o bryderon a methiannau gan Heddlu Manceinon Fwyaf gan gynnwys fel a ganlyn:

- Arestiadau anghyfreithlon
- Defnydd diangen o rym
- Diffyg cadw at y cod dioddefwr
- Peidio â neilltuo swyddogion benywaidd i unigolion benywaidd a gedwir yn y ddalfa
- Diffyg ymateb sy’n ystyriol o drawma wrth ddelio â dioddefwyr cam-drin rhywiol a domestig
- Diffyg darparu cynhyrchion mislif i unigolion benywaidd a gedwir yn y ddalfa.
- Oedi wrth ymateb i gloch y celloedd

- Defnyddio noeth-chwilio yn amhriodol
- Cadw cofnodion anghyson ac anghywir yng nghofnodion y ddalfa
- Oedi a diffyg darparu gofal meddygol i garcharorion sydd wedi'u hanafu
- Dim addasiadau rhesymol ar gyfer carcharor anabl
- Diwylliant ac agwedd swyddogion a rhingylliaid y ddalfa yn wawdlyd ac yn rhagfarnllyd, a chwynion yn cael eu trin gan yr unigolion y mae’r honiadau yn eu herbyn

Dywedodd y Cyfarwyddwr Safonau Gweithredol y Coleg Plismona, y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Tom Harding, hyn ar ôl yr adroddiad:

*“Rhaid i bob unigolyn sy’n dod i gysylltiad â’r heddlu gael eu trin ag urddas a pharch. Dyma'r sylfaen ar gyfer adeiladu ymddiriedaeth a hyder a heb hyn, ni allwn wasanaethu'r cyhoedd yn effeithiol.*

*Mae adroddiad y Fonesig Vera yn adroddiad anodd i’w ddarllen, ond yn angenrheidiol. Heddiw, mae Heddlu Manceinion Fwyaf wedi ymddiheuro i’r rhai y rhoddwyd llais iddynt gan yr ymchwiliad, na chafodd y gofal a’r ystyriaeth yr oedd ganddynt hawl iddynt ac mae’r heddlu wedi ymrwymo i weithredu’r argymhellion yn llawn.*

*Deallaf y bydd cynnwys yr adroddiad hwn yn peri mwy o bryder ynghylch y driniaeth a roddir i fenywod a merched. Rwyf am roi sicrwydd i bob menyw a merch bod eich diogelwch, ymddiriedaeth a hyder yn parhau i fod yn flaenoriaeth i’r Coleg Plismona, ar draws ein holl waith.*

*Mae’r Fonesig Vera yn cydnabod pwysigrwydd bod pob heddlu yn gweithredu canllawiau’r Coleg Plismona. Mae ein canllawiau yn nodi ystyriaethau pwysig er mwyn helpu i benderfynu a oes angen arestio a sut i ofalu am y bobl hynny yn y ddalfa, gan gynnwys y rhai sy'n agored i niwed a'r rhai ag anghenion cymhleth.*

*Mae'r ddalfa yn un o'r meysydd plismona mwyaf cymhleth a risg uchel. Er mwyn cefnogi swyddogion a staff rydym wedi buddsoddi mewn hyfforddiant trochi newydd sy’n eu rhoi mewn amgylchedd dalfa fyw gyda senarios bywyd go iawn, anawsterau a phenderfyniadau sy’n effeithio ar ddiogelwch a llesiant carcharorion.”*

*Rydym eisoes wedi bod yn gweithio gyda Heddlu Manceinion Fwyaf gan eu bod wedi ceisio dysgu gwersi'n gyflym a gwella eu polisïau a'u harferion. Rydym hefyd yn cefnogi heddluoedd ledled Cymru a Lloegr i gryfhau eu ymarferion yn y ddalfa, fel bod pob unigolyn sy'n dod i ddalfa'r heddlu yn cael ei drin â pharch ac empathi.*

*Rwy'n ddiolchgar i'r Fonesig Vera Baird am ei hymchwiliad trylwyr. Byddwn nawr yn gweithio ar draws plismona i ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion ei hadroddiad."*

O ganlyniad i gyhoeddi adroddiad ymchwiliad Vera Baird, gofynnwyd i'r panel gyflawni'r canlynol:

- Ceisio sicrwydd bod swyddog lles benywaidd yn cael ei dyrannu i fenywod yn y ddalfa ar ôl cyrraedd a bod darpariaeth ar gyfer eu hanghenion yn cael ei ddiwallu (fel cynnig cynhyrchion mislif).
- Asesu a yw holl gofnodion y ddalfa a adolygwyd yn cofnodi digwyddiadau noeth-chwiliad yn gywir.
- Sefydlu'r rhesymeg sy'n gysylltiedig ag unrhyw noeth-chwiliadau a gynhaliwyd ar unrhyw fenyw sy'n cael ei chadw yn y ddalfa.

Dyma enghraifft o'r set o gwestiynau y gofynnwyd i'r panel eu hystyried:

# Crynodeb o Ganfyddiadau

Isod mae crynodeb o rai o ganfyddiadau’r panel:

## Pwyntiau cadarnhaol:

**Noeth-chwiliadau**

O'r 11 cofnod y ddalfa a adolygwyd, ni chynhaliwyd noeth-chwiliad mewn naw ohonynt. Roedd yr un a oedd wedi cofnodi noeth-chwiliad wedi darparu rhesymeg ac roedd oedolyn priodol yn bresennol yn ystod y broses. Roedd un cofnod lle na allai aelod o'r panel benderfynu a oedd noeth-chwiliad wedi'i gynnal (gweler sylwadau'r heddlu am hyn).

**Cynhyrchion hylendid a mislif**

Mae 9 o'r 11 cofnod yn dangos bod cynhyrchion hylendid (gan gynnwys cynhyrchion golchi dwylo) a chyfleusterau cawod wedi'u darparu i unigolion benywaidd yn cael eu cadw yn y ddalfa; a chynigiwyd cynhyrchion mislif i bob unigolyn benywaidd yn y ddalfa.

**Siarad â rhywun o'r un rhyw**

Gofynnwyd i bob unigolyn benywaidd a oedd yn cael eu cadw yn y ddalfa a hoffent siarad â rhywun o'r un rhyw.

**Dillad Risg Arbennig**

Nid oedd unrhyw unigolyn benywaidd a gedwir yn y ddalfa wedi gorfod gwisgo dillad risg arbennig (a elwir hefyd yn siwt gwrth-niwed) yn sampl ar hap y panel craffu hwn.

**Cyfanswm yr amser yn y ddalfa**

Yr amser ar gyfartaledd y cafodd unigolyn ei chadw yn y ddalfa oedd 16 awr a 49 munud, a chymerodd awdurdodi i gadw yn y ddalfa ar gyfartaledd 23 munud.

**Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol**

Gwelodd pawb ac eithrio un, weithwyr gofal iechyd proffesiynol heb unrhyw oedi.

**Gwelliannau wrth gofnodi hawliau**

Gofynnwyd i bob unigolyn a gedwir yn y ddalfa am eu gofynion dietegol a chynigiwyd bwyd a lluniaeth iddynt yn rheolaidd. Hysbyswyd 55% am eitemau crefyddol ac am gyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio'r gloch alw yn y gell, hysbyswyd 36% fod y toiled yn cael ei guddio gan lun picsel ar y teledu cylch cyfyng a rhoddwyd eu hawliau i bob unigolion a gedwir yn y ddalfa naill ai yn ystod y cam cofnodi neu'n ddiweddarach yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa.

**Oedolion Priodol**

Nododd yr heddlu fod angen oedolyn priodol ar bobl un o'r unigolion ifanc yn y ddalfa yn y sampl ar hap hwn, a gofynnwyd am un ar eu cyfer. Felly cysylltwyd â'r holl oedolion priodol a enwebwyd a darparwyd sail resymegol ddigonol ar gyfer cysylltu â nhw. Yr amser ar gyfartaledd y cymerwyd i swyddog y ddalfa gysylltu ag oedolyn priodol oedd 1 awr ac 1 munud, a'r amser ar gyfartaledd y cymerodd i'r unigolyn yn y ddalfa gael cysylltiad ag oedolyn priodol am y tro cyntaf oedd 1 awr a 26 munud.

## Meysydd i'w gwella:

**Neilltuo swyddogion o'r un rhyw**

Gwnaeth y panel asesiad, mewn dau gofnod, na allent ganfod a oedd swyddog benyw wedi cyflwyno'i hun i'r unigolyn benywaidd a gedwir yn y ddalfa.

**Bylchau mewn gwybodaeth a gofnodwyd ar draws cofnodion dalfeydd.**

Roedd nifer o achosion lle nododd y panel:

- Ar dri achlysur nid oedd cofnod rhwng yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn gwneud cais a'r cyfreithiwr yn cyrraedd y ddalfa.
- Nid oedd tri o'r cofnodion yn dangos sail resymegol dros yr oedi cyn i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa weld cyfreithiwr.
- Nid oedd manylion cyfeiriad y lleoliad lle rhyddhawyd unigolyn ifanc a gedwir yn y ddalfa iddo.
- Nid oedd chwech o'r cofnodion yn cynnwys a oedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi cael cyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio cloch alw'r gell.
- Nid yw dau o'r cofnodion yn dangos unrhyw fanylion am y lefel arsylwi.
- Nid oedd tystiolaeth bod gwasanaethau cymorth yn cael eu darparu neu y cysylltwyd â nhw mewn pedwar achos.

**Gwasanaethau cynorthwyol**

- Cynigiwyd gwasanaethau cymorth i 46% o’r unigolion a gedwir yn y ddalfa o gymharu â 36% na chafodd gynnig. Fel rhan o adroddiad ymchwiliad y Fonesig Vera Baird, roedd yr argymhellion yn cynnwys mwy o ymwybyddiaeth o wasanaethau sy’n ystyriol o drawma yn benodol i’r rhai sy’n dioddef o gam-drin domestig neu sy’n ddioddefwyr treisio a throseddau rhywiol difrifol. Mae mathau eraill o gymorth hefyd sy’n cynnwys camddefnyddio sylweddau, gwasanaethau iechyd meddwl, neu gyfeirio at y Ganolfan Menywod yng Nghaerfyrddin.

**Llais y plentyn**

O'r 11 cofnod a adolygwyd, roedd chwech o'r rheini yn unigolion ifanc a gedwir yn y ddalfa. Dim ond dau o'r chwe cofnod yn ymwneud ag unigolion ifanc yn y ddalfa oedd yn cynnwys manylion ar gyfer llais y plentyn.(Gweler sylwadau'r heddlu am ragor o wybodaeth am hyn).

# Arsylwadau’r Panel

Cynhyrchwyd sylwadau'r heddlu gan Arolygydd Gwasanaethau'r Ddalfa Andrew Rogers ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys.

| Thema | Arsylwadau | Ymateb yr heddlu |
|---|---|---|
| **Swyddogion benywaidd wedi'u haseinio i’r unigolyn a gedwir yn y ddalfa** | Asesodd y panel, mewn dau gofnod, na allent ganfod a oedd swyddog benywaidd wedi'i haseinio i unigolyn benywaidd a gedwir yn y ddalfa. | *Gwiriwyd y ddau gofnod ac roedd swyddog benyw wedi cael ei haseinio ar y ddau achlysur.* |
| **Swyddogion benyw yn cyflwyno eu hunain i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa** | O fewn chwech o'r cofnodion, ni allai'r panel benderfynu a oedd swyddog benywaidd wedi cyflwyno ei hun i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa. | *Ar bedwar o'r cofnodion, roedd y swyddog benywaidd yn aelod o staff y ddalfa, naill ai’n swyddog y ddalfa a thywys neu’n rhingyll yr heddlu, ac felly byddai wedi cyflwyno'i hun wrth ddesg y ddalfa.*<br>*Fodd bynnag, mewn dau o'r cofnodion, er bod swyddog benywaidd wedi'i haseinio, nid oes cofnod o’r swyddog honno’n cyflwyno'i hun.* |
| **Gwybodaeth ar goll** | Mewn un cofnod y ddalfa, nid oedd yr wybodaeth ganlynol yn amlwg i aelod y panel:<br>- wedi cael cyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio cloch alw’r gell<br>- yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi cael cyfarwyddyd bod y toiled yn cael ei guddio gan lun picsel<br>- A welodd neu a siaradodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa â chyfreithiwr ac nid oedd sail resymegol amlwg am yr oedi hir cyn gweld cyfreithiwr. | *Adolygais y cofnod dalfa hwn a chredaf y gallai’r cofnod penodol hwn fod wedi bod ychydig yn ddryslyd i’r adolygydd. Cafodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ei chadw yn y ddalfa am gyfnod byr o amser ond fe'i rhyddhawyd ar fechnïaeth i ddychwelyd y diwrnod canlynol ar gyfer cyfweliad. Y rhesymeg a ddarparwyd ar gyfer hyn oedd, oherwydd bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn unigolyn ifanc, ac mai'r pwyslais oedd lleihau'r amser a dreulir* |

| | | |
|---|---|---|
| | - Dim tystiolaeth y cysylltwyd â gwasanaethau cymorth neu y cyfeiriwyd atynt.<br>- Ni ddarparwyd unrhyw fanylion ynghylch pryd y cyrhaeddodd oedolyn priodol uned y ddalfa.<br>- Dim manylion am y cyfeiriad y rhyddhawyd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa iddo. | *yn y ddalfa a pheidio â chynnal cyfweliad yn ystod oriau mân y bore.*<br>*I ateb y pwyntiau a godwyd:*<br>- *Dim cofnod ynglŷn â defnyddio cloch y gell neu fod y toiled yn cael ei guddio gan lun picsel.*<br>- *Ni siaradodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa â chyfreithiwr yn ystod yr ymweliad cychwynnol â'r ddalfa gan na chynhaliwyd cyfweliad. Fodd bynnag, roedd nifer o gofnodion yn bresennol ar ôl dychwelyd y diwrnod canlynol yn tynnu sylw at y cyfreithiwr yn cyrraedd y ddalfa, yn ymgynghori ac yn bresennol yn ystod y cyfweliad.*<br>- *Ni ddaethpwyd o hyd i gofnod ynglŷn â gwasanaethau cymorth.*<br>- *Cyrhaeddodd oedolyn priodol y ddalfa yn ystod yr ymweliad cychwynnol am 9.24pm ac ar yr ail ymweliad cyrhaeddodd oedolyn priodol y ddalfa i ateb mechnïaeth gyda'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa.*<br>- *Nid oedd cofnod ynghylch y cyfeiriad y rhyddhawyd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa iddo. Fodd bynnag, byddai'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi cael ei rhyddhau i'w chyfeiriad cartref gan nad dyna* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *oedd y cyfeiriad lle digwyddodd y drosedd.*<br><br>*Bydd Arolygwyr Dalfeydd yn rhoi adborth i staff dalfa pob Uned Reoli Sylfaenol.* |
| **Lefel arsylwi** | Mewn dau gofnod dalfa, ni ellid pennu'r lefel arsylwi. | *Ar y ddau gofnod mae'r lefel arsylwi wedi'i chynnwys yng nghymeradwyaeth y cynllun gofal, sef lefel 1 gydag arsylwadau bob 30 munud.* |
| **Noeth-chwiliad** | Ni allai un aelod o'r panel benderfynu a oedd noeth-chwiliad wedi'i gynnal. | *Nid oedd unrhyw gofnod ynghylch noeth-chwiliad yn cael ei gynnal. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith nad yw hyn yn bresennol yn amlygu unrhyw gamgymeriad ar ran swyddog y ddalfa. Ni fyddai cofnod/ffurflen noeth-chwiliad yn cael ei chreu oni bai bod modd cyfiawnhau noeth-chwiliad a'i fod wedi'i gynnal mewn gwirionedd.* |
| **Llais y plentyn** | Nid oedd llais y plentyn wedi'i gofnodi mewn pedwar cofnod yn ymwneud ag unigolion ifanc a gedwir yn y ddalfa. | *Gallaf weld bod gan un o'r pedwar cofnod a amlygodd y panel gofnod "llais y plentyn"; ond, nid oes gan y tri chofnod arall. Mae hwn yn faes lle bydd angen monitro'r gyfradd gydymffurfedd a bydd adborth yn cael ei ddarparu gan bob un o arolygwyr dalfeydd Unedau Rheoli Sylfaenol.* |
| **Eiliadau cyraeddadwy** | Nid oedd yr un o'r cofnodion a adolygwyd ar gyfer unigolion ifanc a gedwir yn y ddalfa yn dangos unrhyw | *Mae eiliadau cyraeddadwy wedi'u cynnwys yn Rhestr Wirio Plentyn yn y Ddalfa; ond, nid yw'r eiliadau cyraeddadwy yn cael eu diweddaru* |


| | | |
|---|---|---|
| | dystiolaeth o gofnodi eiliadau cyraeddadwy | *drwy gydol y cyfnod cadw. Mae hwn yn ddarn o waith a fydd yn cael ei symud ymlaen gan yr Arolygydd Rogers gan na ddylai staff y ddalfa fod yn cwblhau eiliadau cyraeddadwy. Mae angen rhoi proses ar waith pan fo hyn yn cael ei chwblhau gan weithiwr proffesiynol sydd wedi'i hyfforddi'n briodol, sydd â'r hyfforddiant priodol i gefnogi plant yn y ddalfa.* |

# Canfyddiadau'r Adolygiad o Gofnodion Dalfeydd

Mae'r data isod yn amlinellu canlyniadau'r ffurflenni adborth a gwblhawyd gan aelodau'r panel a ddadansoddwyd i nodi'r pethau cadarnhaol a'r meysydd sydd angen eu gwella ym mhob maes dalfa penodol gan ganolbwyntio ar fenywod a merched yn y ddalfa.


**Demograffeg**

- Fel y cyfeirir ato yn y teitl, mae'r ddemograffeg yn canolbwyntio'n benodol ar fenywod a merched yn y ddalfa; felly ni chafodd unrhyw wrywod eu hystyried ar gyfer y gweithgaredd craffu hwn.
- Cofnodwyd ethnigrwydd Gwyn Prydeinig ym mhob un o'r 11 cofnod a archwiliwyd.




## Unigolion benywaidd a gedwir yn y ddalfa





- Nododd yr aelod o'r panel a nododd 'Amherthnasol', fod yr unigolyn benyw a gedwir yn y ddalfa yn feddw iawn ac angen asesiad gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol oherwydd iddi fwrw ei phen yn fan yr heddlu. Rhoddwyd amser i'r unigolyn yn y ddalfa gysgu er mwyn sobri; felly, ni fyddai'n gallu cofio cael ei chyflwyno i swyddog benyw.




## Ceisiadau Hylendid





- Yn gyffredinol, fe wnaeth y panel asesu bod yr ymdriniaeth hylendid yn dda, bod taflenni gwybodaeth yn cael eu rhoi i'r unigolion a gedwir yn y ddalfa a bod pob cwestiwn risg yn cael ei ofyn.
- Ar gyfer y rhai a restrwyd yn amherthnasol, nododd un aelod o'r panel mai dim ond am 2 awr 27 munud yr oedd yr unigolyn ifanc yn y ddalfa.
- O'r 11 cofnod a adolygwyd, cynigiwyd cynnyrch mislif i bob unigolyn benywaidd a gedwir yn y ddalfa.

### Noeth-chwiliadau

- O’r un unigolyn a gedwir yn y ddalfa a gafodd ei noeth-chwilio, cofnododd aelod y panel y darparwyd sail resymegol dda dros wneud hyn a bod oedolyn priodol yn bresennol yn ystod y broses.
- Roedd un cofnod lle na ellid pennu a oedd noeth-chwiliad wedi'i gynnal ai peidio.





**Dillad risg arbennig *a elwid gynt yn ddillad gwrth-rwygo***

- O'r 11 cofnod dalfa a adolygwyd, ni roddwyd dillad risg arbennig i unrhyw unigolyn a gedwir yn y ddalfa ac ni chafodd unrhyw ddillad eu tynnu gan yr heddlu.





## Dalfeydd




## Amseroedd cyrraedd y ddalfa



### Amseroedd a awdurdodwyd i'r ddalfa




### Aeth amser heibio rhwng cyrraedd ac awdurdodi eu cadw


- Yr amser ar gyfartaledd a aeth heibio o'r adeg y cyrhaeddodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa y ddalfa, a'i awdurdodi i'w gadw yn y ddalfa oedd 23 munud.
- Yr amser aros uchaf oedd 1 awr ac 11 munud.
- Yr amser cyflymaf i awdurdodi cadw unigolyn yn y ddalfa gael oedd dau funud.


### Cyfanswm yr amser yn y ddalfa


- Yr amser ar gyfartaledd y cafodd unigolyn a gedwir yn y ddalfa ei chadw yn y ddalfa oedd 16 awr a 49 munud.
- Yr amser hiraf i unigolyn a gedwir yn y ddalfa gael ei chadw yn y ddalfa oedd 20 awr a 22 munud.
- Mewn cyferbyniad, yr amser byrraf i unigolyn a gedwir yn y ddalfa gael ei chadw yn y ddalfa oedd 1 awr 20 munud.


**Darpariaethau yn y ddalfa**

- Gofynnwyd i bob unigolyn a gedwir yn y ddalfa am eu gofynion dietegol ac alergeddau.







## Sgôr Rhybudd Cynnar yn y Ddalfa (CEWS)





- Mae system sgôr rhybudd cynnar yn y ddalfa (CEWS) wedi'i hychwanegu at broses asesu risg safonol arferol yr heddlu i nodi morbidrwydd a risg marwoldeb yn y ddalfa.

## Hawliau





- Rhoddwyd hawliau i bob unigolyn a gedwir yn y ddalfa naill ai yn ystod y cam cofnodi neu yn ddiweddarach yn ystod eu cadw.





**Pa mor hir, ar ôl cael ei chadw yn awdurdodedig yn y ddalfa, y gofynnodd yr unigolyn am gyfreithiwr?**

- Yr amser ar gyfartaledd a gymerodd i unigolyn a gedwir yn y ddalfa ofyn am gyfreithiwr oedd 2 awr 25 munud.
- Mewn 4 o'r 11 achos, gwnaeth yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa gais am gyfreithiwr o fewn 34 munud.
- Y cyfnod hiraf i unigolyn a gedwir yn y ddalfa ofyn am gyfreithiwr oedd 7 awr a 30 munud.




**Faint o amser a gymerodd i'r heddlu gysylltu â chyfreithiwr**

- Yr amser ar gyfartaledd a gymerodd yr heddlu i gysylltu â chyfreithiwr ar ddyletswydd oedd 1 awr 14 munud.
- Y cyfnod hiraf o amser oedd un awr a 10 munud.
- Y byrraf oedd 6 munud.




**Faint o amser a gymerodd i gyfreithiwr gyrraedd o’r pwynt cysylltu**


- Nododd y panel ar dri achlysur nad oedd unrhyw gofnod rhwng yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn gwneud cais a'r cyfreithiwr yn cyrraedd.
- Nododd y panel hefyd fod amgylchiadau lliniarol ar gyfer yr oedi ar ddau achlysur:

1) Dywedodd y cyfreithiwr wrth y ddalfa nad oedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn hysbys i'w gwmni cyfreithiol, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i staff y ddalfa siarad â’r unigolyn a gedwir yn y ddalfa unwaith eto ar ôl iddi sobri i wirio gwybodaeth oherwydd lefel meddwdod.
2) Roedd galwad yn ôl wedi'i threfnu ar ôl i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa roi sampl gwaed.

**Gwnaeth y panel y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â mynediad at gyfreithwyr:**

- Mewn pedwar o’r cofnodion, gwnaeth aelodau’r panel sylwadau ar yr anawsterau a gawsant i ganfod cofnod o gyfreithwyr yn mynychu. Mewn un cofnod dalfa, dim ond oherwydd nodiadau'r cyfweliad yr oedd yn hysbys bod cyfreithiwr wedi bod yn bresennol.
- Mewn cofnod ar wahân, nododd aelod o'r panel y cysylltwyd â'r cyfreithiwr mewn da bryd a bod camau priodol wedi'u cymryd yn unol â cheisiadau’r unigolyn a gedwir yn y ddalfa.

**Lefel arsylwi**






- Bernir lefel y risg ar bedair lefel.
- Lefel 1 Cyffredinol (o leiaf unwaith yr awr)
- Lefel 2 Ysbeidiol (bob 30 munud)
- Lefel 3 Cyson (arsylwi cyson ar deledu cylch cyfyng ac yn hygyrch bob amser)
- Lefel 4 Yn Gorfforol Agos (dan oruchwyliaeth gorfforol agos).
- Cofnododd y panel 82% o gadarnhad bod holl risgiau unigolion ifanc a gedwir yn y ddalfa wedi'u hystyried, ac ystyriwyd nad oedd dau gofnod yn berthnasol ar sail yr amser y cadwyd yr unigolion ifanc yn y ddalfa.
- Nododd nifer o aelodau'r panel fod y lefelau arsylwi yn cael eu cynnal ar lefel dda.











A lynwyd at hyn?
5
5
1
Do
Naddo
Ni ddaethpwyd o hyd I fanylion


## Gwasanaethau cynorthwyol




- Cynigiwyd gwasanaethau cymorth i 46% o unigolion a gedwir yn y ddalfa o gymharu â 36% na roddwyd cynnig iddynt.
- Roedd 7 o'r 11 cofnod dalfa a graffwyd arnynt yn awgrymu nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu y cysylltwyd â'r gwasanaethau cymorth neu iechyd meddwl yn ystod cyfnod cadw'r unigolion a gedwir yn y ddalfa.


**Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol**


- O'r 11 achos a adolygwyd, roedd angen i 10 weld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ac nid oedd unrhyw oedi cyn i unigolion a gedwir yn y ddalfa gael asesiad iechyd. Nododd yr aelod o'r panel nad oedd unrhyw sail resymegol ar gyfer yr oedi.







### Iechyd meddwl, oedolion priodol ac elfennau bregusrwydd eraill












- Dywedodd y panel fod pob un o'r chwech unigolyn ifanc yn y ddalfa o'r farn bod angen oedolyn priodol arnyn nhw a chysylltwyd â nhw ar gyfer pob un yn unol â hynny.
- Ar gyfartaledd cymerodd 1 awr ac 1 munud i swyddog y ddalfa gysylltu ag oedolyn priodol, a chymerodd ar gyfartaledd 1 awr a 26 munud i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa gael cysylltiad ag oedolyn priodol am y tro cyntaf.
- Nododd aelod o'r panel, mewn un cofnod dalfa, nad oedd yn gallu canfod pryd roedd oedolyn priodol wedi cyrraedd y ddalfa; ond, nododd fod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ar lefel arsylwi Lefel 4 a gostyngodd i Lefel 1 ar ôl i'r oedolyn priodol gyrraedd.

## Plant yn y ddalfa

Yn yr adran hon dim ond ar chwech unigolyn benywaidd ifanc a gedwir yn y ddalfa y canolbwyntiwyd arnynt, fel y nodir yn yr adran demograffig uchod.




- Ni chadwyd yr un o'r unigolion ifanc a gedwir yn y ddalfa dros nos.
- Yn yr unig gofnod lle ceisiwyd llety arall, nododd aelod o'r panel nad oedd unrhyw fanylion am y cyfeiriad yn y cofnod; ond, cymerwyd yn ganiataol mai preswylfa'r oedolyn priodol oedd hynny.
- Ym mhob un o'r chwe chofnod yn ymwneud â phlant, nid oedd yr un ohonynt wedi cofnodi eiliadau cyraeddadwy.

